# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# ENGHRAIFFT O E-BOST/LLYTHYR FFUGIOL I'W DEFNYDDIO MEWN YMHOLI DRAMATIG

**Oddiwrth: Elinor Williams@calonafan.co.uk**
**At:** Enw'r Ysgol/Pennaeth/Athro
**Cc:**

Dyddiad: yn ôl yr angen

Annwyl (Enw'r Athro/Athrawes neu Ddosbarth),

Bore da,

'Rydym wedi'n penodi gan y Cyngor i ymgymryd â'r hyn a ystyrir ganddynt i fod yn ddarn pwysig iawn o waith, sef astudio darn o dir ar gyrion tref Port Talbot.

Mae'r Rheolwr Twristiaeth a'i thîm yn poeni am y tir hwn. Mae'r Cyngor yn deall bod angen ei warchod rhag y fandaliaeth sy'n digwydd yno ar hyn o bryd, ac hefyd y bygythiad bod safleoedd gwerthfawr yn cael eu difrodi.

Wrth wrando ar adroddiadau o'r gymuned leol, mae'r Cyngor o'r farn bod y tir yn cuddio cyfrinachau y byddai modd eu datgelu a'u defnyddio i helpu ei achub rhag y pethau a fyddai, o bosib, yn ei ddifrodi. Maen nhw'n awyddus i ddarganfod beth yw'r rhain.

Mae'r Cyngor wedi dweud wrthon ni bod gan y Mynydd botensial am dwristiaeth, ffaith a fyddai o gymorth mawr i'r gymuned ym Mhort Talbot ar adeg pan y gallai hyn fod o help mawr i lawer o bobl.

'Rydym yn cysylltu â phobl yr ardal a fyddai, o bosib, yn gallu ein helpu gyda'r mater, yn y gobaith bod ganddynt wybodaeth bwysig am yr hanes, a'r bobl a oedd yn byw ar y darn hwn o dir

Ein gobaith yw y byddwn yn gallu cael sgwrs gyda chi – oherwydd bod gan rhai pobl eu' bys ar y botwm' ac yn gallu taflu goleuni ar yr hyn a allai fod yno, a'n cyfeirio at unrhyw beth a fyddai o ddiddordeb i ni.

Y tir o dan sylw yw Mynydd Dinas; atodaf fideo a recordiwyd yn ddiweddar i esbonio’r hyn sydd eisoes yn hysbys i ni, ynghyd â map yn dangos rhai o’r adeiladau ‘rydym yn amau eu bod yno. Dw i’n gobeithio y bydd hyn o gymorth gyda mater sydd wedi profi, hyd yn hyn, i fod yn dasg anodd ac heriol i ni.

Rhowch wybod pryd y byddai’n gyfleus cynnal cyfarfod ar Teams/Zoom. Byddaf yng Nghastell-nedd ar Fehefin 19eg/20fed felly, yn ddibynnol ar yr amser, efallai y byddai hefyd yn bosibl trefnu cwrdd wyneb yn wyneb.

Yn gywir

Elinor

**Elinor Williams**

Ymgynghorydd Cyswllt

Cwmni Buddiant Cymdeithasol Calon Afan

ebost: contact@calonafan.org

www.calonfan.org